


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Adroddiad Argymhellion Terfynol

Chwefror 2021

© Hawlfraint CffDLC 2021

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn ymholiadau@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.cffdl.llyw.cymru

RHAGAIR

Mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno'r Adroddiad hwn i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, sy'n cynnwys ei argymhellion am drefniadau etholiadol diwygiedig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Mae'r arolwg hwn yn rhan o'r rhaglen o arolygon sy'n cael eu cynnal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac mae'n dilyn yr egwyddorion a gynhwysir yn nogfen Polisi ac Arfer y Comisiwn.

Mae'r mater tegwch wrth wraidd cyfrifoldebau statudol y Comisiwn. Amcan y Comisiwn fu gwneud argymhellion sy'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, ac sy'n parchu cysylltiadau cymunedol lleol, cyn belled ag y bo modd gwneud hynny. Nod yr argymhellion yw gwella cydraddoldeb etholiadol, fel bod yr un gwerth i bleidlais etholwr unigol â phleidlais etholwyr eraill ledled y Fwrdeistref Sirol, i'r graddau y gellir cyflawni hynny.

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i Aelodau a Swyddogion y Prif Gyngor am eu cymorth gyda'i waith, i'r Cyngorau Cymuned a Thref am eu cyfraniadau gwerthfawr, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau trwy gydol y broses.

Dr Debra Williams

Cadeirydd

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL BWRDEISTREF SIROL
BRO MORGANNWG

ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL


Cynnwys	Tudalen
Pennod 1 Cyflwyniad	2
Pennod 2 Y Cynigion Drafft	3
Pennod 3 Crynodeb o'r Argymhellion Terfynol	4
Pennod 4 Asesiad	8
Pennod 5 Yr Argymhellion Terfynol	10
Pennod 6 Crynodeb o'r Trefniadau a Argymhellwyd	32
Pennod 7 Ymatebion i'r Adroddiad hwn	33
Pennod 8 Cydnabyddiaethau	34

ATODIAD 1	RHESTR TERMAU
ATODIAD 2	AELODAETH BRESENNOL Y CYNGOR
ATODIAD 3	AELODAETH ARGYMELLEDIG Y CYNGOR
ATODIAD 4	RHEOLAU A GWEITHDREFNAU
ATODIAD 5	CRYNODEB O'R CYNRYCHIOLAETHAU DRAFFT
ATODIAD 6	YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID A LLYWODRAETH LEOL 23 MEHEFIN 2016 - DATGANIAD YSGRIFENEDIG


Argraffiad 1^{af} wedi'i brintio Chwefror 2021

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.
Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.
Darparwyd y cyfieithiad o'r adroddiad hwn gan Trosol.

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru



*Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD
CF24 0BL*



*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819
Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*

*E-bost: ymholiadau@ffiniau.cymru
www.cffdl.llyw.cymru*

Julie James, AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Pennod 1. CYFLWYNIAD

1. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) wedi cynnal arolwg o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf), Adrannau 29, 30 a 34-36 yn benodol.
2. Yn unol â'r Ddeddf, mae'r Comisiwn wedi cwblhau'r arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac yn cyflwyno ei argymhellion terfynol ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol.
3. Daeth y rhaglen arolygon hon yn sgil Datganiad Ysgrifenedig cyn Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol ar 23 Mehefin 2016, pan ofynnwyd i'r Comisiwn ailddechrau ei raglen arolygon, gyda disgwyliad y byddai pob un o'r 22 arolwg etholiadol wedi'u cwblhau mewn pryd i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Gellir gweld y Datganiad Ysgrifenedig yn Atodiad 6. Gellir gweld y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r Comisiwn yn eu dilyn yn nogfen y Comisiwn *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* [2016] a amlinellir yn Atodiad 4. Ceir Rhestr Geirfa yn Atodiad 1, sy'n rhoi disgrifiad byr o rywfaint o'r derminoleg gyffredin a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.
4. Mae adran 35 y Ddeddf yn pennu'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol ag Adran 35, ysgrifennodd y Comisiwn at Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, yr holl gynghorau cymuned a thref yn yr ardal, yr ymgynghoreion gorfodol a phartïon eraill â buddiant ar 30 Ebrill 2019, i'w hysbysu o'n bwriad i gynnal yr arolwg ac i ofyn am eu barnau cychwynnol. Bu'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg o 08 Mai 2019 i 30 Gorffennaf 2019. Hefyd, trefnodd y Comisiwn fod copiâu o'i ddogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* [2016] ar gael.
5. Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Cynigion Drafft ar 13 Chwefror 2020, a gofynnodd am farnau ar y cynigion. Rhedodd yr ymgynghoriad hwn o 20 Chwefror 2020 yn y lle cyntaf, ac roedd i fod i ddod i ben ar 13 Mai 2020. Oherwydd y pandemig Covid-19, cafodd yr ymgynghoriad ei oedi ar 24 Mawrth 2020. Ail-agorodd yr ymgynghoriad wedyn ar 01 Medi 2020 a chau ar 20 Hydref 2020 i ganiatáu ar gyfer yr ymgynghoriad 12 wythnos llawn.
6. Cyhoeddodd y Comisiwn yr arolwg ar ei wefan a sianelau'r cyfryngau cymdeithasol, a gofynnodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg, a rhoddodd nifer o hysbysiadau cyhoeddus i'w harddangos i'r Cyngor. Darparwyd y rhain i'r cynghorau cymuned a thref yn yr ardal hefyd. Yn ogystal, gwnaeth y Comisiwn gyflwyniad i gynghorwyr sir, a chynghorwyr tref a chymuned i esbonio proses yr arolwg a pholisïau'r Comisiwn. Gwahoddwyd y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gyflwyno cynllun awgrymedig ar gyfer trefniadau etholiadol newydd.

Pennod 2. Y CYNIGION DRAFFT

1. Cyn llunio'r cynigion drafft, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, un Aelod Seneddol, wyth o gynghorau cymuned a thref, dau gynghorydd, tri grŵp â buddiant a thri o drigolion.
2. Ystyriwyd y cynrychiolaethau hyn a chawsant eu crynhoi yn yr Adroddiad Cynigion Drafft a gyhoeddwyd ar 13 Chwefror 2020, yn hysbysu'r ymgynghoreion gorfodol a restrwyd a phartïon eraill â buddiant o gyfnod ymgynghori ar y cynigion drafft, a ddechreuodd ar 20 Chwefror 2020 ac a oedd i ddod i ben ar 13 Mai 2020. Oherwydd y pandemig Covid-19, cafodd yr ymgynghoriad ei oedi gyda chytundeb y Cyngor ar 24 Mawrth 2020. Ail-agorodd yr ymgynghoriad wedyn ar 01 Medi 2020 a chau ar 20 Hydref 2020. Gofynnodd y Comisiwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg arddangos copïau o'r adroddiad ochr yn ochr â hysbysiadau cyhoeddus yn yr ardal. Roedd cynigion drafft y Comisiwn yn cynnig newid i'r trefniant wardiau etholiadol a fyddai wedi cyflawni gwelliant nodedig yn y lefel cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.
3. Cynigiodd y Comisiwn Gyngor â 53 o aelodau, cynnydd o faint presennol y Cyngor, sef 47 o aelodau. Roedd hyn yn arwain at gyfartaledd sirol arfaethedig o 1,809 o etholwyr fesul aelod.
4. Cynigiodd y Comisiwn 23 o wardiau etholiadol.
5. Roedd y dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yn Plymouth (23% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn y Rhws (69% uwchlaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig).
6. Roedd yr orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn y cynigion yn Sain Tathan (26% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn Llandochau (18% islaw'r cyfartaledd sirol arfaethedig).
7. Cynigiodd y Comisiwn 19 ward aml-aelod yn y sir, yn cynnwys: deg ward etholiadol â dau aelod; saith ward etholiadol â thri aelod; a dwy ward etholiadol â phedwar aelod.
8. Cynigiodd y Comisiwn gadw deg o wardiau etholiadol.
9. Cynigiodd y Comisiwn gael un ward etholiadol (Cornerswell a Llandochau) yn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â ward, ynghyd â'i chymuned gyfagos.


Pennod 3. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

- Derbyniodd y Comisiwn 126 o gynrychiolaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, wyth o gynrychiolaethau gan saith o gynghorau tref/cymuned, pedwar o Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol, pedwar grŵp gwleidyddol, un Aelod Seneddol, un Aelod o'r Senedd a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, un sefydliad arall â buddiant a 105 o gynrychiolaethau gan 119 o drigolion yn ymwneud â Cornerswell / Llandochoau ac un trigolyn lleol arall.
- Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn llunio ei argymhellion. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hynny yn Atodiad 5.
- Mae'r Comisiwn yn argymhell newid i drefniant wardiau etholiadol a fydd yn cyflawni gwelliant nodedig o ran lefel y cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.
- Mae'r Comisiwn yn argymhell Cyngor â 54 o aelodau, cynnydd o faint presennol y Cyngor, sef 47 o aelodau. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol argymelledig o 1,775 o etholwyr fesul aelod.
- Mae'r Comisiwn yn argymhell 24 o wardiau etholiadol,
- Mae'r dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yn **Plymouth** (25% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn y Rhws (72% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig).
- Mae'r orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yn **Sain Tathan** (25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn Llandochoau (16% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig).
- Mae'r Comisiwn yn argymhell 19 o wardiau aml-aelod yn y sir yn cynnwys 11 ward etholiadol â dau aelod; pum ward etholiadol â thri aelod; a thair ward etholiadol â phedwar aelod.
- Mae'r Comisiwn wedi argymhell cadw tair ar ddeg o wardiau etholiadol.


Mapiau Cryno

7. Ar y tudalennau dilynol, ceir mapiau thematig i ddangos y trefniadau presennol ac argymelledig a'u hamrywiannau oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig. Mae'r ardaloedd hynny sy'n wyrdd o fewn $\pm 10\%$ o'r cyfartaledd sirol; y rhai sy'n felyn ac wedi'u llinellu'n felyn rhwng $\pm 10\%$ a $\pm 25\%$ o'r cyfartaledd sirol; y rhai sy'n oren ac wedi'u llinellu'n oren rhwng $\pm 25\%$ a $\pm 50\%$ o'r cyfartaledd sirol; ac, yn olaf, mae'r rhai sy'n goch dros $\pm 50\%$ o'r cyfartaledd sirol.
8. Fel y gellir gweld o'r mapiau hyn, mae'r trefniadau newydd yn darparu gwelliant nodedig o ran cydraddoldeb etholiadol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
AMRYWIAD PRESENNOL MEWN CYNRYCHOLAETH O'R CYFARTALEDD SIROL ARGYMHELLOL



BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
AMRYWIAD ARGYMHELLEDIG MEWN CYNRYCHOLAETH ETHOLIADOL O'R CYFARTALEDD SIROL ARGYMHELLEDIG



Pennod 4. ASESIAD

Maint y Cyngor

9. Pennwyd maint y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg gan ein polisi a'n methodoleg ar faint cynghorau. Mae'r polisi hwn i'w weld yn ein dogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* [2016]. Mae'r fethodoleg yn pennu maint Cyngor o 51 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae maint y Cyngor, sef 47 o aelodau, bedwar aelod islaw nod y fethodoleg.
10. Arolygodd y Comisiwn y trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yng ngoleuni ein methodoleg, ac fe ystyriodd y cynrychiolaethau a wnaed. Am y rhesymau a roddir isod, mae'r Comisiwn yn credu, er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, y byddai Cyngor o 54 aelod yn briodol i gynrychioli Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Nifer yr etholwyr

11. Y niferoedd a ddangosir fel yr etholwyr ar gyfer 2019 a'r amcangyfrifon ar gyfer nifer yr etholwyr yn y flwyddyn 2024 yw'r rhai a gyflwynwyd i'r Comisiwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae'r ffigurau rhagamcanol a gyflenwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn dangos cynnydd rhagamcanol yn nifer yr etholwyr o 95,865 i 110,768.
12. Fe wnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ddarparu ei nifer amcangyfrifedig o unigolion sy'n gymwys i bleidleisio hefyd ond nad ydynt ar y gofrestr etholiadol. Roedd hon yn dangos amcangyfrif o 7,581 yn fwy o bobl sy'n gymwys i bleidleisio na nifer yr etholwyr yn 2019.
13. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru yn deddfu i ymestyn yr etholfraint i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor, nad ydynt yn gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd, yn etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae Polisi'r Comisiwn ar Faint Cynghorau yn defnyddio'r boblogaeth gyfan i bennu maint cynghorau, a chynhwyswyd y ddau grŵp hyn yn yr ystyriaethau ynglŷn â Maint Cynghorau.
14. Er nad yw pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y ffigurau etholiadol presennol a ddarparwyd gan Gyngor Bro Morgannwg, bydd yr unigolion hynny wedi'u cynnwys yn y ffigurau rhagamcanol a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae ystyriaeth o'r ffigurau hyn wedi'i chynnwys yn ystyriaethau'r Comisiwn o'i argymhellion.
15. Mae gwladolion tramor wedi'u cynnwys yn nata'r cyfrifiad a ddarparwyd gan yr ONS. Mae ystyriaeth o'r data hwn wedi'i chynnwys fel rhan o ystyriaethau'r Comisiwn o'i argymhellion.

Cymhareb cynghorwyr i etholwyr

16. O ran nifer yr etholwyr fesul cynghorydd ym mhob ward etholiadol, ceir amrywiant eang oddi wrth y cyfartaledd sirol presennol, sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd, yn amrywio o 27% yn is (1,490 o etholwyr) i 50% yn uwch (3,056 o etholwyr). Mae pennu maint y cyngor â 54 o aelodau yn arwain at gyfartaledd o 1,775 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan bob cynghorydd.
17. Yn ei ystyriaethau, ystyriodd y Comisiwn gymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol, gyda'r nod o gynnig newidiadau er mwyn sicrhau y bydd nifer yr etholwyr llywodraeth leol yr un fath, neu mor agos ag y bo modd, ym mhob ward yn y brif ardal. Ystyriwyd maint a chymeriad y Cyngor ac ystod eang o ffactorau eraill, gan gynnwys topograffeg leol, cysylltiadau ffordd a chysylltiadau lleol.

Barn a Chydbwysedd

18. Wrth lunio cynllun o drefniadau etholiadol, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o faterion a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth. Yn y cynllun argymelledig mae'r Comisiwn wedi rhoi pwyslais ar gyflawni gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol, wrth gynnal cysylltiadau cymunedol, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r Comisiwn wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wardiau etholiadol diwygiedig, ym marn y Comisiwn, yn gyfuniadau priodol o gymunedau a wardiau cymunedol presennol.
19. Mewn rhai ardaloedd, oherwydd nifer yr etholwyr mewn cymuned neu ward gymunedol, mae'r Comisiwn wedi ystyried cadw neu greu wardiau aml-aelod er mwyn cyflawni lefelau priodol o gydraddoldeb etholiadol. Mae'r mater hwn yn aml yn codi mewn ardaloedd trefol lle mae nifer yr etholwyr yn rhy uchel i ffurfio ward un aelod. Gallai godi hefyd mewn ardaloedd mwy gwledig lle y byddai creu wardiau un aelod yn arwain at amrywiannau sylweddol o ran cydraddoldeb etholiadol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr arfer sefydledig o gael wardiau aml-aelod ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac adlewyrchir hyn yn argymhellion y Comisiwn.
20. Mae'r Comisiwn wedi edrych ar bob ardal ac mae'n fodlon y byddai'n anodd cyflawni trefniadau etholiadol sy'n cadw cyfuniad presennol y cymunedau a'r wardiau cymunedol heb gael effaith niweidiol ar un neu fwy o'r materion eraill y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried.

Enwau Wardiau Etholiadol

21. Mae'r Comisiwn yn enwi wardiau etholiadol ac nid y lleoedd o fewn y wardiau etholiadol argymelledig. Wrth greu'r argymhellion terfynol hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried enwau'r holl wardiau etholiadol a gynigiwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle bo'n briodol. Ar gyfer yr argymhellion terfynol hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried enwau naill ai wardiau etholiadol neu gymunedau sy'n ymddangos mewn Gorchmynion, lle maent yn bodoli; y rheiny a argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg; ac yn y cynrychiolaethau a dderbyniodd.
22. Ymgynghorodd y Comisiwn â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag addasrwydd yr enwau yn eu ffurf ddrafft cyn cyhoeddi'r argymhellion terfynol hyn, gyda ffocws arbennig ar yr enwau Cymraeg. Mae hyn yn cydnabod cyfrifoldeb y Comisiynydd iaith i gynghori ar ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymraeg, a gwybodaeth arbenigol yn y maes. Rhaid nodi'n glir nad yw'r argymhellion hyn yn gynigion ar gyfer gwneud newidiadau i unrhyw enwau lleoedd. Ym mhob argymhelliad, dynodir beth yw enw amgen argymelledig Comisiynydd y Gymraeg a, lle mae'n gwahaniaethu, yr argymhelliad penodol a pham mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnig enw amgen i enw argymelledig y Comisiwn.

Pennod 5. YR ARGYMHELLION TERFYNOL

23. Mae argymhellion y Comisiwn yn cael eu disgrifio'n fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob cynnig newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:

- Enw(au)'r wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward argymelledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
- Disgrifiad byr o'r wardiau etholiadol presennol o ran nifer yr etholwyr nawr a'r nifer a ragamcenir, a chanran eu hamrywiant o'r cyfartaledd sirol argymelledig;
- Y prif ddadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad drafft (os oedd rhai). Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adran hon, mae pob un o'r cynrychiolaethau wedi cael ystyriaeth a gellir gweld crynodeb yn Atodiad 5;
- Barnau'r Comisiwn;
- Cyfansoddiad y ward etholiadol argymelledig a'r enw argymelledig;
- Map o'r ward etholiadol argymelledig (gweler yr allwedd ar dudalen 11).

Wardiau Etholiadol Cadwedig

24. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a chymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer y cynghorwyr i'w hethol. Argymhellir y dylid cadw'r trefniadau presennol yn y wardiau etholiadol canlynol. Mae'r enwau a ddangosir mewn **teip trwm** yn y rhestr isod yn dynodi'r wardiau etholiadol y mae eu daearyddiaeth a'u henwau ward etholiadol presennol wedi cael eu rhagnodi o fewn Gorchmynion, ac y mae'r Comisiwn yn argymhell eu cadw.

- | | |
|----------------------|----------------------|
| • Buttrills | • Gibbonsdown |
| • Castleland | • Illtud |
| • Cornerswell | • Llandochoau |
| • Court | • Plymouth |
| • Y Bont-faen | • Stanwell |
| • Dinas Powys | • Sili |
| • Dyfan | |

25. Yn ei Adroddiad Cynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Cornerswell a Llandochoau i greu ward etholiadol â thri aelod. Yng ngolau'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, mae'r Comisiwn wedi argymhell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau etholiadol presennol Cornerswell a Llandochoau.

26. Yn ei Adroddiad Cynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol Dinas Powys i greu ward etholiadol â thri aelod. Yng ngolau'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, mae'r Comisiwn wedi argymhell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer ward etholiadol Dinas Powys.

Wardiau Etholiadol Argymelledig

27. Ystyriodd y Comisiwn newidiadau i'r wardiau etholiadol sy'n weddill. Ceir manylion am y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 2. Mae trefniadau argymelledig y Comisiwn i'w gweld yn Atodiad 3.



Ffin y Ward Etholiadol
Argymhelledig



Ffiniau Cynigion
Drfft



Ffiniau
Cymunedol




Ffiniau Wardiau
Cymunedol

St. Augustine's

28. Mae ward etholiadol bresennol St Augustine's yn cynnwys ward St Augustine's yn Nhref Penarth. Mae ganddi 5,104 o etholwyr (6,066 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 44% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 5,974 o bleidleiswyr cymwys.
29. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn gynyddu nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol bresennol St Augustine's o ddau i dri.
30. Derbyniodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ardal hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned Llanilltud Fawr.
31. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer y ward etholiadol hon.
32. Roedd Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned Llanilltud Fawr yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer y ward etholiadol hon.
33. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward St Augustine's yn Nhref Penarth yn ffurfio ward etholiadol o 5,104 o etholwyr a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd (un cynghorydd yn fwy), yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 4% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
34. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol St Augustine's. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw.
35. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **St Augustine's** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
36. Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r cynnig a wnaed gan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae'r argymhelliad hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol ac yn cael ei gefnogi gan y cyngor tref a Chabinet Cyngor Bro Morgannwg.
37. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r trefniant hwn sy'n mynd i'r afael orau â'r lefelau amrywiant etholiadol amhriodol presennol wrth gadw cysylltiadau cymunedol, a byddai'n darparu ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


St Augustine's



Baruc

38. Mae ward etholiadol bresennol Baruc yn cynnwys ward Baruc yn Nhref y Barri. Mae ganddi 5,589 o etholwyr (6,680 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 57% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward boblogaeth amcangyfrifedig o 5,427 o bleidleiswyr cymwys.
39. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn gynyddu nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol bresennol Baruc o ddau i dri.
40. Derbyniodd y Comisiwn bedair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ward etholiadol hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr a Grŵp Bro Morgannwg Plaid Cymru.
41. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr a Grŵp Bro Morgannwg Plaid Cymru yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer y ward etholiadol hon.
42. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward Baruc yn Nhref y Barri yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,589 o etholwyr (6,680 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd (un cynghorydd yn fwy), yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
43. Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol Baruc. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau mewn perthynas â'r enw.
44. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw unigol **Baruc** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enw argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
45. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth a wnaed gan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a chytunodd y byddai'r cynnig i gynyddu nifer yr aelodau yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn y ward. Mae'r trefniant argymelledig yn cael ei gefnogi gan fwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.
46. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Baruc



Cadog

47. Mae ward etholiadol bresennol Cadog yn cynnwys ward Cadog yn Nhref y Barri. Mae ganddi 7,000 o etholwyr (7,825 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 31% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 7,909 o bleidleiswyr cymwys.
48. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn gynyddu nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol bresennol Cadog o dri i bedwar.
49. Derbyniodd y Comisiwn bedair cynrychiolaeth mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ardal hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr a Grŵp Bro Morgannwg Plaid Cymru.
50. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal.
51. Roedd Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr ac Alun Cairns AS (Bro Morgannwg) yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal.
52. Nid oedd Grŵp Bro Morgannwg Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig drafft i greu ward etholiadol â phedwar aelod yng Nghadog, fel arall cynigiont rannu ward bresennol Cadog trwy greu dwy ward etholiadol newydd â dau aelod, sef Tregatwg a Phencoedtre, gan ddefnyddio ardaloedd pleidleisio presennol.
53. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod ward Cadog yn Nhref y Barri yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 7,000 o etholwyr (7,825 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan bedwar cynghorydd (un cynghorydd yn fwy), yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 1% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
54. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Cadog; a'r enw Saesneg Cadoc. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw unigol Cadog. Noda Comisiynydd y Gymraeg, os yw'r gwahaniaeth rhwng y ffurf Gymraeg a'r ffurf 'Saesneg' yn un neu ddwy lythyren yn unig, argymhellir defnyddio un ffurf, gan ffafrio'r ffurf Gymraeg.
55. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Cadog** i'r ward etholiadol argymelledig a'r enw Saesneg **Cadoc**. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw unigol Cadog. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
56. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth i rannu ward Cadog yn ddwy ward trwy greu dwy ward etholiadol newydd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn fwy priodol i'w hystyried fel rhan o arolwg cymunedol o dan Adran 31 y Ddeddf, yn cael ei arwain gan y Cyngor.
57. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau presennol a rhagamcanol ar gyfer ward Cadog, ac mae o'r farn y byddai ward â thri aelod yn arwain at lefel uchel o amrywiant etholiadol. Felly, mae'r Comisiwn wedi gwneud eithriad i'w bolisi i beidio â chreu unrhyw wardiau newydd â phedwar aelod. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol gwneud hyn yn yr achos hwn, gan nad oes unrhyw opsiwn amgen ymarferol wedi'i gyflwyno.
58. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Cadog




Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr a Saint-y-brid

59. Mae ward etholiadol bresennol Llandŵ/Ewenni yn cynnwys Cymunedau Tregolwyn, Ewenni, Llandŵ a Llan-gan. Mae ganddi 2,252 o etholwyr (2,211 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 27% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,174 o bleidleiswyr cymwys.
60. Mae ward etholiadol bresennol Llanilltud Fawr yn cynnwys Tref Llanilltud Fawr a Chymunedau Llan-faes a Sain Dunwyd. Mae ganddi 7,665 o etholwyr (9,415 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan bedwar cynghorydd, sydd 8% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 8,500 o bleidleiswyr cymwys.
61. Mae ward etholiadol bresennol Saint-y-brid yn cynnwys Cymunedau Saint-y-brid a'r Wig. Mae ganddi 2,539 o etholwyr (2,377 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 43% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,334 o bleidleiswyr cymwys.
62. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn bod Cymunedau Ewenni, Saint-y-brid, Sain Dunwyd a'r Wig yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol. O ganlyniad, mae Cymunedau Tregolwyn, Llandŵ a Llan-gan yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol, a Thref Llanilltud Fawr a Chymuned Llan-faes yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol.
63. Derbyniodd y Comisiwn un ar ddeg o gynrychiolaethau mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ardal hon gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr, Cyngor Cymuned Tregolwyn, Cyngor Cymuned Llan-gan, Cyngor Cymuned Llanddunwyd, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Christine Cave (Llandŵ/Ewenni), Andrew RT Davies Aelod o'r Senedd a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol Y Rhws, Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg, Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg ac un trigolyn lleol.
64. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal.
65. Roedd Cyngor Cymuned Sain Dunwyd a Chyngor Cymuned Llanilltud Fawr ill dau yn cefnogi'r cynigion drafft yn yr ardal.
66. Roedd Cyngor Cymuned Tregolwyn, Cyngor Cymuned Llan-gan, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Christine Cave (Llandŵ/Ewenni), Andrew RT Davies Aelod o'r Senedd a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol (Y Rhws), Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg ac un trigolyn lleol yn gwrthwynebu'r cynigion drafft, a chynigiont fod wardiau presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid yn cael eu cyfuno, ynghyd â Chymuned Sain Dunwyd, i greu ward newydd â thri aelod. Mae'r holl gymunedau o fewn y ward arfaethedig hon yn bentrefi bach sy'n rhannu nodweddion tebyg a chysylltiadau lleol. Byddai'r ward arfaethedig hon â thri aelod yn cynnwys 5,024 o etholwyr, gyda chymhareb sydd 7% islaw'r cyfartaledd sirol. Yr enw arfaethedig ar gyfer y ward fyddai Western Vale.
67. Roedd Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg yn cefnogi cynnig y Comisiwn i gadw pedwar aelod i gynrychioli ward etholiadol Llanilltud Fawr, fodd bynnag, cynigiont fod y trefniadau presennol yn cael eu cadw ar gyfer wardiau etholiadol Saint-y-brid a Llandŵ/Ewenni.
68. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymunedau Ewenni, Saint-y-brid, Sain Dunwyd a'r Wig yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 3,375 o etholwyr (3,209 o etholwyr


rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 5% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.

69. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Saint-y-brid; a'r enw Saesneg St Bride's Major. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw Saesneg St Brides Major a'r enw Cymraeg Saint-y-brid. Noda Comisiynydd y Gymraeg mai dyma'r ffurfiau a argymhellir yn y cyfeirlyfr safonol, sef y Rhestr o Enwau Lleoedd (Gwasg Prifysgol Cymru, 1967). Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
70. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Saint-y-brid** a'r enw Saesneg **St Bride's Major** i'r ward etholiadol argymelledig. Argymhellodd Comisiynydd y Gymraeg yr enw Saesneg St Brides Major. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
71. O ganlyniad, mae'r Comisiwn yn argymell bod Cymunedau Tregolwyn, Llandŵ a Llan-gan yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 1,649 o etholwyr (1,615 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 7% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
72. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Llandŵ a'r enw Saesneg Llandow. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
73. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Llandŵ** a'r enw Saesneg **Llandow** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
74. Mae'r Comisiwn yn argymell, o ganlyniad pellach, bod Tref Llanilltud Fawr a Chymuned Llan-faes yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 7,432 o etholwyr (9,179 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan bedwar cynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 5% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
75. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Llanilltud Fawr a'r enw Saesneg Llantwit Major. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
76. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Llanilltud Fawr** a'r enw Saesneg **Llantwit Major** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
77. Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ynglŷn â'r ardal hon. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai ward etholiadol arfaethedig Western Vale yn creu ward aml-aelod wledig fawr. Mae Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, ynghyd â Chyngor Cymuned Sain Dunwyd a Chyngor Tref Llanilltud Fawr yn cefnogi'r trefniant argymelledig.
78. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Saint-y-brid



Llandŵ




Llanilltud Fawr



Sain Tathan

79. Mae ward etholiadol bresennol Sain Tathan yn cynnwys Cymuned Sain Tathan. Mae ganddi 2,659 o etholwyr (4,124 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 50% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 3,577 o bleidleiswyr cymwys.
80. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn gynyddu nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli ward etholiadol bresennol Sain Tathan o un i ddau.
81. Derbyniodd y Comisiwn bum cynrychiolaeth mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ardal hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Cymuned Llanddunwyd, Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr, Alun Cairns AS (Bro Morgannwg) a Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg.
82. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal.
83. Roedd Cyngor Cymuned Llanddunwyd, Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr ac Alun Cairns AS (Bro Morgannwg) yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer y ward etholiadol hon.
84. Roedd Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg yn gwrthwynebu'r cynigion drafft ar gyfer y ward etholiadol hon a chynigiont fod y trefniadau presennol yn cael eu cadw.
85. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned Sain Tathan yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 2,659 o etholwyr (4,124 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd (un cynghorydd yn fwy), yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
86. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Sain Tathan a'r enw Saesneg St Athan. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
87. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Sain Tathan** a'r enw Saesneg **St Athan** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
88. Ystyriodd y Comisiwn y gynrychiolaeth a wnaed gan y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a chytunodd y byddai'r cynnig i gynyddu nifer yr aelodau yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn y ward. Mae'r trefniant argymelledig yn cael ei gefnogi gan fwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd ac mae'n arwain at ward etholiadol â lefel briodol o amrywiant etholiadol. Roedd y Comisiwn o'r farn na fyddai cadw'r trefniadau presennol yn briodol oherwydd y lefel amrywiant uchel sy'n bodoli yn y ward ar hyn o bryd.
89. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r argymhelliad hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Sain Tathan



Llanbedr-y-fro, Y Rhws a Gwenfô

90. Mae ward etholiadol bresennol Llanbedr-y-fro yn cynnwys cymunedau Pendeulwyn, Llanbedr-y-fro, Sain Siorys a Llanddunwyd. Mae'n cynnwys 1,840 o etholwyr (1,803 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 4% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 1,784 o bleidleiswyr cymwys.
91. Mae ward etholiadol y Rhws yn cynnwys Cymunedau Llancarfan a'r Rhws. Mae ganddi 6,111 o etholwyr (6,436 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 72% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 5,637 o bleidleiswyr cymwys.
92. Mae ward etholiadol bresennol Gwenfô yn cynnwys Cymunedau Sain Nicolas a Thresimwn a, Gwenfô. Mae ganddi 2,650 o etholwyr (2,940 o etholwyr rhagamcanol) a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 49% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig. Mae gan y ward etholiadol boblogaeth amcangyfrifedig o 2,362 o bleidleiswyr cymwys.
93. Yn ei gynigion drafft, cynigiodd y Comisiwn fod Cymunedau Llancarfan, Sain Siorys a Sain Nicolas a Thresimwn yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol. O ganlyniad, cynigir bod Cymunedau Pendeulwyn, Llanbedr-y-fro a Llanddunwyd yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol, ac i Gymuned Gwenfô ffurfio ward etholiadol. Cynigiodd y Comisiwn hefyd fod Cymuned y Rhws yn ffurfio ward etholiadol.
94. Derbyniodd y Comisiwn chwe chynrychiolaeth mewn ymateb i'r cynigion drafft ynglŷn â'r ardal hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr, Andrew RT Davies Aelod o'r Senedd a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol (Y Rhws), Alun Cairns AS (Bro Morgannwg), Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg a Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg.
95. Ni ddaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg i unrhyw gonsensws ynglŷn â'r cynigion drafft. Roedd Cabinet Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal.
96. Roedd Cyngor Cymuned Llanilltud Fawr a Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg yn cefnogi'r cynigion drafft ar gyfer yr ardal hon.
97. Roedd Andrew RT Davies Aelod o'r Senedd a Chynghorydd Bwrdeistref Sirol (Y Rhws), Alun Cairns AS (Bro Morgannwg) a Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg yn gwrthwynebu'r cynigion drafft yn yr ardal. Cynigiont greu ward etholiadol newydd â phedwar aelod a fyddai'n cynnwys Cymunedau Y Rhws, Llancarfan a Thresimwn a Sain Nicolas. Byddai'r cynnig hwn yn galluogi Cymuned Sain Siorys i aros yn ward etholiadol Llanbedr-y-fro. Roeddent yn dadlau y byddai'r ward arfaethedig hon yn adlewyrchu'r cysylltiadau cymunedol yn yr ardal yn well.
98. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymunedau Llancarfan, Sain Siorys a Sain Nicolas a Thresimwn yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 1,621 o etholwyr (1,880 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 9% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
99. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Sain Nicolas a Thresimwn a'r enw Saesneg St Nicholas and Llancarfan. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno, ond nododd nad yw'r enw Saesneg Llancarfan yn cyfateb i'r enw Cymraeg Thresimwn ac y gallai'r Comisiwn ddefnyddio


Llancarfan yn lle Tresimwn yn yr enw Cymraeg neu ddefnyddio Bonvilston (yr enw Saesneg ar Dresimwn) yn lle Llancarfan yn yr enw Saesneg.

100. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Sain Nicolas a Llancarfan** a'r enw Saesneg **St Nicholas and Llancarfan** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
101. O ganlyniad, mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymunedau Penddeulwyn, Llanbedr-y-fro a Llanddunwyd yn cyfuno i ffurfio ward etholiadol newydd sy'n cynnwys 1,515 o etholwyr (1,490 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 15% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
102. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Llanbedr-y-fro a'r enw Saesneg Peterston-Super-Ely. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
103. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Llanbedr-y-fro** a'r enw Saesneg **Peterston-Super-Ely** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
104. Mae'r Comisiwn yn argymhell, fel canlyniad pellach, bod Cymuned Gwenfô yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 1,957 o etholwyr (1,930 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 10% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
105. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Gwenfô a'r enw Saesneg Wenvoe. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
106. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Gwenfô** a'r enw Saesneg **Wenvoe** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
107. Mae'r Comisiwn yn argymhell bod Cymuned y Rhws yn ffurfio ward etholiadol sy'n cynnwys 5,508 o etholwyr (5,879 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai, pe byddai'n cael ei chynrychioli gan dri chynghorydd, yn arwain at lefel cynrychiolaeth sydd 3% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig.
108. Cynigiodd y Comisiwn yr enw Cymraeg Y Rhws a'r enw Saesneg Rhoose. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau arfaethedig. Ni dderbyniodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.
109. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg **Y Rhws** a'r enw Saesneg **Rhoose** i'r ward etholiadol argymelledig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Gellir anfon unrhyw sylwadau ar yr enwau argymelledig at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
110. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gyflwynwyd a oedd yn cynnig creu ward etholiadol newydd â phedwar aelod yn cynnwys Cymunedau Y Rhws, Llancarfan a Thresimwn a Sain Nicolas. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn nad yw'n ddymunol creu


ward newydd â phedwar aelod mewn ardal lled wledig. Hefyd, noda'r Comisiwn fod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cefnogi cynigion drafft y Comisiwn yn yr ardal hon.

111. Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r trefniadau hyn sy'n mynd i'r afael orau â'r lefelau amrywiant etholiadol presennol yn yr ardal.
112. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r wardiau argymelledig hyn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.


Sain Nicolas a Llancarfán




Llanbedr-y-fro



Gwenfô



Y Rhws



Pennod 6 CRYNODEB O'R TREFNIADAU ARGYMELLEDIG

113. Mae'r trefniadau etholiadol presennol (fel y dangosir yn Atodiad 2) yn darparu'r lefelau canlynol o gynrychiolaeth etholiadol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg:
- Mae'r amrywiant etholiadol yn amrywio o 27% islaw'r cyfartaledd sirol presennol (Llandochoau) i 50% uwchlaw'r cyfartaledd sirol presennol (Y Rhws), sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Nid oes gan yr un o'r wardiau etholiadol lefel cynrychiolaeth sy'n fwy na 50% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan saith ward etholiadol lefel cynrychiolaeth sydd rhwng 25% a 50% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan naw ward etholiadol lefel cynrychiolaeth sydd rhwng 10% a 25% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan saith ward etholiadol lefel cynrychiolaeth sy'n llai na 10% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol presennol, sef 2,040 o etholwyr fesul cynghorydd.
114. O gymharu â'r trefniadau etholiadol presennol sydd i'w gweld uchod, mae'r trefniadau etholiadol argymelledig (sydd i'w gweld yn Atodiad 3) yn dangos y gwelliannau canlynol i'r gynrychiolaeth etholiadol ar draws y Sir:
- Mae'r amrywiant etholiadol yn amrywio o 25% islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig (Sain Tathan) i 25% uwchlaw'r cyfartaledd sirol argymelledig (Plymouth), sef 1,775 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Nid oes gan yr un o'r wardiau etholiadol lefel cynrychiolaeth sy'n fwy na 25% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,775 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 10 ward etholiadol lefel cynrychiolaeth sydd rhwng 10% a 25% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,775 o etholwyr fesul cynghorydd.
 - Mae gan 14 ward etholiadol lefel cynrychiolaeth sy'n llai na 10% uwchlaw neu islaw'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,775 o etholwyr fesul cynghorydd.
115. Fel y disgrifir ym Mhennod 4 ac Atodiad 4, wrth lunio cynllun o drefniadau etholiadol, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Nid yw'n bosibl datrys pob un o'r materion hyn bob tro, sydd weithiau'n gwrthdaro â'i gilydd. Yng nghynllun argymelledig y Comisiwn, rydym wedi rhoi pwyslais ar gyflawni gwelliannau o ran cydraddoldeb etholiadol, gan gynnal cysylltiadau cymunedol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
116. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y byddai creu wardiau etholiadol, sy'n gwyro oddi wrth y patrwm presennol, yn anochel yn tarfu rhywfaint ar y cysylltiadau presennol rhwng cymunedau a gallent bontio ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r Comisiwn wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wardiau etholiadol diwygiedig yn adlewyrchu cyfuniadau rhesymegol o gymunedau a wardiau cymunedol presennol.
117. Mae'r Comisiwn wedi edrych ar bob ardal, ac mae'n fodlon y byddai'n anodd cyflawni trefniadau etholiadol sy'n cadw'r cyfuniad presennol o gymunedau a wardiau cymunedol heb gael effaith niweidiol ar un neu fwy o'r materion eraill y mae'n rhaid iddo eu hystyried.

Pennod 7. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

118. Ar ôl cwblhau'r arolwg o Fwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a chyflwyno argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru ar drefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer y prif awdurdod, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.
119. Gwaith Llywodraeth Cymru yn awr, os gwêl yn dda, yw gweithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd, neu gydag addasiadau. Gall Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i ni gynnal arolwg pellach hefyd.
120. Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau pellach yn ymwneud â'r materion yn yr adroddiad hwn at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag ddim hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid anfon cynrychiolaethau at:

Tîm Democratiaeth Llywodraeth Cymru
Yr Is-adran Democratiaeth, Amrywiaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu e-bostiwr nhw i:

lgdtmailbox@gov.wales

Pennod 8. CYDNABYDDIAETHAU

121. Dymuna'r Comisiwn ddiolch i'r prif Gyngor, yr holl gynghorau tref a chymuned a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau wrth i ni ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.

Dr. DEBRA WILLIAMS (Cadeirydd)

CERI STRADLING (Dirprwy Gadeirydd)

DAVID POWELL (Aelod)

JULIE MAY (Aelod)

THEODORE JOLOZA (Aelod)

SHEREEN WILLIAMS MBE OStJ (Prif Weithredwr)

[Chwefror 2021]

ATODIAD 1 – RHESTR TERMAU

Amrywiant etholiadol	I ba raddau mae nifer yr etholwyr fesul cynghorydd mewn ward yn amrywio o'r cyfartaledd sirol; wedi'i fynegi ar ffurf canran.
Arolwg etholiadol	Arolwg lle mae'r Comisiwn yn ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer Prif Gyngor.
Comisiwn	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
Cyfartaledd Sir	Y cyfartaledd cynghorwyr i etholwyr am ardal y prif gyngor
Cyfarwyddiadau	Cyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 48 y Ddeddf.
Cymuned (ardal)	Yr uned llywodraeth leol sydd islaw lefel y Prif Gyngor.
Cymuned Ranedig	Cymuned sydd wedi'i rhannu rhwng dwy neu fwy o wardiau etholiadol.
Cyngor Cymuned	Cyngor etholedig sy'n darparu gwasanaethau i'w ardal gymunedol benodol. At ddibenion etholiadol cymunedol, gellir rhannu Cyngor Cymuned yn wardiau cymunedol.
Cyngor Tref	Mae Cyngor Cymuned sydd â statws tref yn cael ei adnabod fel Cyngor Tref. At ddibenion etholiadol cymunedol, gellir rhannu Cyngor Tref yn wardiau.
Etholaeth	Nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn ardal llywodraeth leol.
Etholaeth ragamcanol	Y rhagolygon pum mlynedd ar gyfer yr etholaeth.
Gorchymyn	Gorchymyn a wneir gan gorff gweithredu sy'n rhoi cynigion a wneir gan y Prif Gyngor neu'r Comisiwn ar waith.
Gorgynrychiolaeth	Lle mae llai o etholwyr fesul cynghorydd mewn ward o gymharu â'r cyfartaledd sirol.
Parti â buddiant	Unigolyn neu gorff sydd â buddiant yng nghanlyniad arolwg etholiadol, fel cyngor cymuned, AS neu AC lleol neu blaid wleidyddol.

Poblogaeth amcangyfrifedig y pleidleiswyr cymwys	Nifer amcangyfrifedig y bobl gymwys (18+) mewn ardal llywodraeth leol sy'n gymwys i bleidleisio. Cafwyd y ffigurau hyn o amcangyfrifon poblogaeth wardiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru yn 2015, canol 2015 (ystadegau arbrofol).
Prif ardal	Yr ardal a lywodraethir gan Brif Gyngor: sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.
Prif Gyngor	Corff llywodraeth leol un haen sy'n gyfrifol am bob un, neu bron bob un, o'r swyddogaethau llywodraeth leol yn ei ardal. Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
Tangynrychiolaeth	Lle mae mwy o etholwyr fesul cynghorydd mewn ward o gymharu â'r cyfartaledd sirol.
Ward Cymuned / Tref	Ardal mewn Cyngor Cymunedol a grëwyd at ddibenion etholiadol cymunedol.
Wardiau etholiadol	Yr ardaloedd y caiff Prif Gyngorau eu rhannu iddynt at ddiben ethol cynghorwyr sir, y cyfeiriwyd atynt gynt fel adrannau etholiadol.
Y Ddeddf	Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
AELODAETH PRESENNOL Y CYNGOR**

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWYR	NIFER ETHOLWYR 2019	CYMHAREB 2019	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	NIFER ETHOLWYR 2024	CYMHAREB 2023	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	Poblogaeth s'y'n cymwys i biedleisio
1	Baruc	Ward Baruc yn Dref Barri	2	5,589	2,795	37%	6,680	3,340	42%	5,427
2	Buttrills	Ward Buttrills yn Dref Barri		4,256	2,128	4%	5,033	2,517	7%	5,004
3	Cadog	Ward Cadog yn Dref Barri	3	7,000	2,333	14%	7,825	2,608	11%	7,909
4	Castelland	Ward Castelland yn Dref Barri	2	3,270	1,635	-20%	4,124	2,062	-13%	4,041
5	Cornerswell	Ward Cornerswell yn Dref Penarth	2	3,965	1,983	-3%	4,409	2,205	-6%	4,279
6	Court	Ward Court yn Dref Barri	2	3,219	1,610	-21%	3,697	1,849	-22%	3,716
7	Y Bont-faen	Tref Y Bont-faen gyda Llanfleidfan a Chymunedau Llan-fair a Phen-llin	3	5,047	1,682	-18%	5,757	1,919	-19%	5,214
8	Dinas Powys	Y Cymunedau o Ddinas Powys a Llanfhangell-y-nys-Afan	4	6,086	1,522	-25%	7,356	1,839	-22%	6,563
9	Dyfan	Ward Dyfan yn Dref Barri	2	4,031	2,016	-1%	4,447	2,224	-6%	4,410
10	Gibbonsdown	Ward Gibbonsdown yn Dref Barri	2	3,693	1,847	-9%	4,716	2,358	0%	4,403
11	llitud	Ward llitud ward yn Dref Barri	3	6,117	2,039	0%	6,725	2,242	-5%	6,650
12	Llandoche	Cymuned Llandoche	1	1,490	1,490	-27%	1,681	1,681	-29%	1,513
13	Llandw/Ewenni	Cymunedau Ewenni, Llandw, Llan-gan a Dregowlyn	1	2,252	2,252	10%	2,211	2,211	-6%	2,174
14	Llanillud Fawr	Tref Llanillud Fawr a Cymunedau Llan-naes a Sain Dunwyd	4	7,665	1,916	-6%	9,415	2,354	0%	8,500
15	Llanbedr-y-fro	Cymunedau Llanbedr-y-fro, Llanddunwyd Penddeulwyn a Sain Siorys a	1	1,840	1,840	-10%	1,803	1,803	-23%	1,784
16	Plymouth	Ward Plymouth yn Dref Penarth	2	4,450	2,225	9%	4,791	2,396	2%	4,616
17	Y Rhws	Cymunedau Llancarfan a Rhws	2	6,111	3,056	50%	6,436	3,218	37%	5,637
18	Sain Tathan	Cymuned Sain Tathan	1	2,659	2,659	30%	4,124	4,124	75%	3,577
19	St Augustine's	Ward St Augustine's yn Dref Penarth	2	5,104	2,552	25%	6,066	3,033	29%	5,974
20	Saint-y-brid	Cymunedau Saint-y-brid a'r Wlg	1	2,539	2,539	24%	2,377	2,377	1%	2,334
21	Stanwell	Ward Stanwell yn Dref Penarth	2	3,260	1,630	-20%	3,597	1,799	-24%	3,463
22	Sili	Cymuned Sili	2	3,572	1,786	-12%	4,558	2,279	-3%	3,896
23	Gwentô	Cymuned Gwentô a Sain Nicolas a Thresimwn	1	2,650	2,650	30%	2,940	2,940	25%	2,362
TOTAL:			47	95,865	2,040		110,768	2,2357		103,446

Mwy na + neu - 50% o'r cyfartaledd Sirol
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r cyfartaledd Sirol
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r cyfartaledd Sirol
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r cyfartaledd Sirol

Year	1	4	8	10
2024	4%	17%	35%	43%

Age Group	Percentage
0	0%
1	30%
9	40%
7	30%

AELODAETH ARFAETHEDIG
BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

Rhif	ENW	DISGRIFIAD	NIFER CYNGHORWY R	NIFER ETHOLWYR 2019	CYMHAREB 2019	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol	NIFER ETHOLWYR 2024	CYMHAREB 2024	% amrywiaeth o'r cyfartaledd Sirol
1	Baruc	Ward Baruc yn Dref Barri	3	5,589	1,863	5%	6,680	2,227	9%
2	Buttrills	Ward Buttrills yn Dref Barri	2	4,256	2,128	20%	5,033	2,517	23%
3	Cadog	Ward Cadog yn Dref Barri	4	7,000	1,750	-1%	7,825	1,956	-5%
4	Castleland	Ward Castleland yn Dref Barri	2	3,270	1,635	-8%	4,124	2,062	1%
5	Cornerswell	Ward Cornerswell yn Dref Penarth	2	3,965	1,983	12%	4,409	2,205	8%
6	Court	Ward Court yn Dref Barri	2	3,219	1,610	-9%	3,697	1,849	-10%
7	Y Bont-faen	Tref Y Bont-faen gyda Llanfleiddan a Chymunedau Llan-fair a Phen-llin	3	5,047	1,682	-5%	5,757	1,919	-7%
8	Dinas Powys	TY Cymunedau o Ddinas Powys a Llanfihangel-ynys-Afan	4	6,086	1,522	-14%	7,356	1,839	-10%
9	Dyfan	Ward Dyfan yn Dref Barri	2	4,031	2,016	14%	4,447	2,224	8%
10	Gibbonsdown	Ward Gibbonsdown yn Dref Barri	2	3,693	1,847	4%	4,716	2,358	15%
11	Illtud	Ward Illtud ward yn Dref Barri	3	6,117	2,039	15%	6,725	2,242	9%
12	Llandoche	Cymuned Llandoche	1	1,490	1,490	-16%	1,681	1,681	-18%
13	Llandŵ	Cymunedau Llandŵ, Llan-gan a Dregolwyn	1	1,649	1,649	-7%	1,615	1,615	-21%
14	Llaniltud Fawr	Tref Llaniltud Fawr a Cymunedau Llan-naes a Sain Dunwyd	4	7,432	1,858	5%	9,179	2,295	12%
15	Llanbedr-yfro	Cymunedau Llanbedr-y-fro, Llanddunwyd a Phendeulwyn	1	1,515	1,515	-15%	1,490	1,490	-27%
16	Plymouth	Ward Plymouth yn Dref Penarth	2	4,450	2,225	25%	4,791	2,396	17%
17	Y Rhws	Cymuned Rhws	3	5,508	1,836	3%	5,879	1,960	-4%
18	Sain Tathan	Cymuned Sain Tathan	2	2,659	1,330	-25%	4,124	2,062	1%
19	Saint-y-brid	Cymunedau Ewenni, Saint-y-brid, Sain Dunwyd at Wig	2	3,375	1,688	-5%	3,209	1,605	-22%
20	Sain Nicolas a Thresimwn	Cymunedau Llanccarfan, Sain Nicolas a Thresimwn a Sain Slorys	1	1,621	1,621	-9%	1,880	1,880	-8%
21	St. Augustine's	Ward St Augustine's yn Nhref Penarth	3	5,104	1,701	-4%	6,066	2,022	-1%
22	Stanwell	Ward Stanwell yn Nhref Penarth	2	3,260	1,630	-8%	3,597	1,799	-12%
23	Sili	Cymuned Sili	2	3,572	1,786	1%	4,558	2,279	11%
24	Gwentô	Cymuned Gwentô	1	1,957	1,957	10%	1,930	1,930	-6%
CYFANSYMAU:			54	95,865	1,775		110,768	2,051	

Atodiad 3

Y gynhareb yw nifer yr etholwyr fesul cynghorydd
Cyflenwyd y figurau etholiadol gan Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Mwy na + neu - 50% o'r cyfartaledd Sirol	2019	2024	0	0%	0	0%
Rhwng + neu - 25% a + neu - 50% o'r cyfartaledd Sirol			0	0%	1	4%
Rhwng + neu - 10% a + neu - 25% o'r cyfartaledd Sirol			10	42%	11	46%
Rhwng 0% a + neu - 10% o'r cyfartaledd Sirol			14	58%	12	50%

RHEOLAU A GWEITHDREFNAU

Cwmpas ac Amcan yr Arolwg

1. Mae Adran 29 (1) Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i arolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod arolygu o ddeng mlynedd, at ddiben ystyried p'un a ddylai gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru i newid y trefniadau etholiadol hynny ai peidio. Wrth gynnal arolwg, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus (Adran 21 (3) y Ddeddf).
2. Gofynnodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg cyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Trefniadau Etholiadol

3. Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymhell mewn perthynas ag arolwg etholiadol yw:
 - (a) y newidiadau hynny i drefniadau'r brif ardal dan sylw y mae o'r farn eu bod yn briodol; ac
 - (b) o ganlyniad i'r newidiadau hynny:
 - (i) y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal;
 - (ii) y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol; ac
 - (iii) y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.
4. Caiff "trefniadau etholiadol" prif ardal eu diffinio yn adran 29 (9) Deddf 2013 fel a ganlyn:
 - i) nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal;
 - ii) nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol;
 - iii) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal; ac
 - iv) enw unrhyw ward etholiadol.

Ystyriaethau ar gyfer arolwg o drefniadau etholiadol prif ardal

5. Wrth ystyried p'un a ddylai gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, mae adran 30 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn:
 - (a) geisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly;
 - (b) rhoi sylw i'r canlynol:
 - (i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly;
 - (ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.
6. Wrth ystyried cymhareb yr etholwyr llywodraeth leol i nifer yr aelodau, rhaid ystyried:
 - (a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y bobl sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel y gwelir mewn ystadegau swyddogol perthnasol); ac
 - (b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.

Newidiadau llywodraeth leol

7. Ers y Gorchymyn llywodraeth leol diwethaf yn 1998, bu nifer o newidiadau i ffiniau llywodraeth leol yn Fro Morgannwg:
 - Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002
 - Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

Gweithdrefn

8. Mae Pennod 4 y Ddeddf yn pennu canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r rhan hon o'r Ddeddf, ar 27 Chwefror 2019 ysgrifennodd y Comisiwn at Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, yr holl Gynghorau Cymuned yn yr ardal, yr Aelodau Seneddol ar gyfer yr etholaethau lleol, yr Aelodau Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â buddiant i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg ac i ofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Gwahoddodd y Comisiwn y Cyngor Sir i gyflwyno cynllun neu gynlluniau awgrymedig ar gyfer trefniadau etholiadol

newydd, a gofynnodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg arddangos nifer o hysbysiadau cyhoeddus yn yr ardal. Trefnodd y Comisiwn fod copïau o'r ddogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* ar gael hefyd.

9. Yn unol ag Adran 35 Pennod 4 y Ddeddf, cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Cynigion Drafft ar 13 Chwefror 2020, gan hysbysu'r ymgynghoreion gorfodol a restrwyd a phartïon eraill â buddiant y byddai cyfnod o ymgynghori ar y cynigion drafft yn dechrau ar 20 Chwefror 2020 ac yn dod i ben ar 13 Mai 2020. Fodd bynnag, oherwydd y Pandemig Coronafeirws, seibiodd y Comisiwn yr ymgynghoriad ar ei Cynigion Drafft ar 24 Mawrth 2020. Yna ailagorwyd yr ymgynghoriad ar 01 Medi 2020 a daeth i ben ar 20 Hydref 2020. Cyfarfu'r Comisiwn ag Arweinwyr Grŵp a Phrif Weithredwr Cyngor Dinas a Sir Bro Morgannwg i drafod y Cynigion Drafft a'r broses o ddatblygu'r Argymhellion Terfynol. Gwahoddodd y Comisiwn y Cyngor Bwrdeistref Sirol a phartïon eraill â buddiant i gyflwyno sylwadau ar y Cynigion Drafft a sut gellid eu gwella. Hefyd, gofynnodd y Comisiwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg arddangos copïau o'r adroddiad ochr yn ochr â hysbysiadau cyhoeddus yn yr ardal.
10. Caiff ffiniau'r wardiau etholiadol arfaethedig eu dangos gan linellau glas di-dor ar y map a roddir ar adnau gyda'r Adroddiad hwn yn Swyddfeydd Cyngor Sirol Bro Bwrdeistref a Swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd, yn ogystal ag ar wefan y Comisiwn (<http://cfdl.llyw.cymru>).

Polisi ar Arfer

11. Cyhoeddodd y Comisiwn y ddogfen *Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer* ym mis Hydref 2016. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ddull y Comisiwn o ddatrys yr her o gydbwysu cydraddoldeb etholiadol â chysylltiadau cymunedol; mae'n amlinellu'r materion i'w hystyried ac yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r ymagwedd gyffredinol tuag at bob un o'r ystyriaethau statudol wrth fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol arolwg. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r amgylchiadau hynny'n debygol o ddarparu'r patrwm etholiadol delfrydol, yn y rhan fwyaf o arolygon, gwneir cyfaddawdau wrth gymhwyso'r polisiâu er mwyn taro'r cydbwysedd priodol rhwng pob un o'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried.
12. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu'r amserlen gyffredinol ar gyfer y rhaglen, a sut y cafodd ei nodi, a Pholisi'r Comisiwn ar Faint Cynghorau. Mae'r ddogfen i'w gweld ar wefan y Comisiwn neu mae ar gael ar gais.

Hawlfraint y Goron

13. Lluniwyd y mapiau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, ac a gyhoeddir ar wefan y Comisiwn, gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau hyn yn destun © Hawlfraint y Goron. Bydd eu hatgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai golygydd unrhyw bapur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau yn rhan o erthygl am y cynigion drafft gysylltu â swyddfa hawlfraint yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

**CRYNODEB O GYNRYCHIO LAETHAU A DDERBYNIWYD AR GYFER
YMGYNGHORIAID CYNIGION DRAFFT Y COMISIWN AR YR AROLWG O
DREFNIADAU ETHOLIADOL YM MWRDEISTREF SIROL BRO
MORGANNWG**

1. Anfonodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg** neges e-bost ar 08 Hydref 2020 i grybwyll bod y Cabinet yn cefnogi'r adroddiad cynigion drafft, heblaw am ward etholiadol arfaethedig Cornerswell a Llandoche. Crybwyllodd hefyd na allai'r Cyngor ddod i gytundeb ar yr adroddiad cynigion drafft. Cyflwynodd gofnodion cyfarfod y cyngor a roddodd ddolen i adroddiad y cabinet ar yr adroddiad cynigion drafft.
2. Anfonodd **Cyngor Tref Llanilltud Fawr** neges e-bost ar **14 Medi 2020** i grybwyll bod yr holl gynghorwyr yn cytuno nad oes gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion a gyflwynwyd yn yr arolwg.
3. Anfonodd **Cyngor Cymuned Llanddunwyd** neges e-bost ar **5 Mawrth 2020** i gefnogi cynnig y Comisiwn i gyfuno Sain Siorys a Llansanffraid-ar-elái â Chymuned Sain Nicolas.
4. Anfonodd **Cyngor Tref Penarth** neges e-bost ar **16 Mawrth 2020** i wrthwynebu'r cynigion drafft ar gyfer wardiau Llandoche a Cornerswell. Crybwyllodd y dylid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau etholiadol Llandoche a Cornerswell. Roedd yn cefnogi'r cynigion ar gyfer ward St. Augustine's.
5. Anfonodd **Cyngor Cymuned Tregolwyn** neges e-bost ar **01 Hydref 2020** ynghylch cymunedau Tregolwyn, Ewenni, Llandŵ, Llanganna, Saint-y-brid, Sain Dunwyd a'r Wig. Roedd yn cynnig y dylid cyfuno wardiau etholiadol presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid, ynghyd â Chymuned Sain Dunwyd, i greu ward etholiadol newydd â thri aelod. Mae'r cymunedau hyn yn bentrefi bach sy'n rhannu nodweddion tebyg a chysylltiadau lleol hirsefydledig. Cânt eu hystyried yn lleol yn rhan o ardal sy'n cael ei hadnabod fel "Gorllewin y Fro".
6. Anfonodd **Cyngor Cymuned Llanganna** neges e-bost ar **13 Hydref 2020** ynghylch cymunedau Tregolwyn, Ewenni, Llandŵ, Llanganna, Saint-y-brid, Sain Dunwyd a'r Wig. Roedd yn cynnig y dylid cyfuno wardiau etholiadol presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid, ynghyd â Chymuned Sain Dunwyd, i greu ward etholiadol newydd â thri aelod. Mae'r cymunedau hyn yn bentrefi bach sy'n rhannu nodweddion tebyg a chysylltiadau lleol hirsefydledig. Cânt eu hystyried yn lleol yn rhan o ardal sy'n cael ei hadnabod fel "Gorllewin y Fro".
7. Anfonodd **Cyngor Tref Penarth** neges e-bost ar **16 Hydref 2020** i ailddatgan ei sylwadau na ddylid newid y trefniadau etholiadol presennol yn Nhref Penarth a Chymuned Llandoche, a'i fod yn cefnogi'r cynigion ar gyfer ward St Augustine's.
8. Anfonodd **Cyngor Cymuned Dinas Powys** neges e-bost ar **19 Hydref 2020** i wrthwynebu'r cynigion i ostwng nifer yr aelodau yn Ninas Powys. Cyfeiriodd at gynnydd yn y boblogaeth oherwydd datblygiadau yn y dyfodol fel rheswm pam y dylai ward etholiadol gadw pedwar cynghorydd.
9. Anfonodd **Cyngor Cymuned Llandoche** neges e-bost ar **02 Medi 2020** i wrthwynebu cyfuno wardiau etholiadol Llandoche a Cornerswell. Atododd lythyr yn manylu ar ei bryderon, a chrybwyllodd fod Llandoche a Cornerswell yn ddwy gymuned hollol ar wahân.
10. Anfonodd y **Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Christine Cave (Llandŵ/Ewenni)** neges e-bost ar **01 Hydref 2020** ynghylch cymunedau Tregolwyn, Ewenni, Llandŵ, Llanganna, Saint-y-brid, Sain Dunwyd

a'r Wig. Roedd yn cynnig y dylid cyfuno wardiau etholiadol presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid, ynghyd â Chymuned Sain Dunwyd, i greu ward etholiadol newydd â thri aelod. Mae'r cymunedau hyn yn bentrefi bach sy'n rhannu nodweddion tebyg a chysylltiadau lleol hirsefydledig. Cânt eu hystyried yn lleol yn rhan o ardal sy'n cael ei hadnabod fel "Gorllewin y Fro".

11. Anfonodd y **Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Vince Driscoll (Dinas Powys)** neges e-bost ar **19 Hydref 2020** i wrthwynebu'r cynigion i ostwng nifer yr aelodau yn Ninas Powys. Crybwyllodd y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn cynyddu poblogaeth Dinas Powys, ac felly y dylai'r ward etholiadol gadw pedwar cynghorydd. Atododd fapiau CAPITA â'i gynrychiolaeth.
12. Anfonodd y **Cynghorydd Bwrdeistref Sirol George Carrol (Llandoche)** neges e-bost ar **19 Hydref 2020** i wrthwynebu'r cynigion i gyfuno wardiau Llandoche a Cornerswell. Crybwyllodd mai ei ddewis cyntaf fyddai i Llandoche gadw ei threfniadau presennol. Fel arall, gallai gefnogi'r opsiwn o gyfuno Llandoche â chymunedau cyfagos Llanfihangel-ynys-afan a Leckwith, gan fod cysylltiadau lleol cryfach a mwy o ffiniau naturiol â'r pentrefi hyn.
13. Anfonodd y **Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Stephen Griffiths (Dinas Powys)** neges e-bost ar **20 Hydref 2020** i wrthwynebu'r cynnig i ostwng nifer yr aelodau yn Ninas Powys o bedwar i dri. Crybwyllodd mai cadw nifer bresennol yr aelodau yw'r ffordd orau i liniaru unrhyw dueddiadau anrhagweledig o ran cynnydd yn y boblogaeth.
14. Anfonodd yr **Aelod o'r Senedd Andrew RT Davies (Canol De Cymru) a'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol (Y Rhws)** neges e-bost ar **09 Hydref 2020** i gynnig y sylwadau canlynol ar yr Adroddiad Cynigion Drafft:

Y Rhws a Sain Nicolas – Creu ward newydd â phedwar aelod o'r enw Y Rhws a Sain Nicolas. Byddai'r ward hon yn cynnwys cymunedau Y Rhws, Llancarfan a Thresimwn a Sain Nicolas.

Llandŵ – Cyfuno wardiau presennol Llandŵ, Saint-y-brid a Sain Dunwyd i greu ward etholiadol newydd â thri aelod.

Dinas Powys – Dylai ward etholiadol bresennol Dinas Powys barhau'n ward â phedwar aelod.

Cornerswell a Llandoche – Dylai wardiau etholiadol presennol Cornerswell a Llandoche gadw eu trefniadau presennol.

15. Anfonodd yr **Aelod Seneddol Alun Cairns (Bro Morgannwg)** neges e-bost ar **20 Hydref 2020** i roi'r sylwadau canlynol ar yr Adroddiad Cynigion Drafft:

Mae'n cefnogi'r ffiniau arfaethedig yn ymwneud â'r wardiau etholiadol canlynol. Er ei fod yn cefnogi'r trefniadau etholiadol yn Y Barri, mae'n nodi y dylid ailystyried y trefniadau hyn mewn arolwg cymunedol yn y dyfodol.

- **Y Bont-faen**
- **Llanilltud Fawr**
- **Gwenfô**
- **Sain Tathan**
- **Baruc**
- **Cadoc**
- **Buttrills**
- **Castleland**
- **Court**

- **Gibbonsdown**
- **Dyfan**
- **Illtud**

Mae ganddo bryderon ynghylch cynigion y Comisiwn ar gyfer y wardiau canlynol (gan enwi'r rhai sydd o fewn Ffin Seneddol Bro Morgannwg yn unig), y mae o'r farn eu bod yn groes i'r cysylltiadau cymunedol presennol ac nad ydynt er budd llywodraeth leol effeithiol:

Dinas Powys – Mae'n cynnig y dylai Dinas Powys gadw pedwar cynghorydd.

Y Rhws, Sain Nicolas a Llancarfan a Llanbedr-y-fro – Creu ward etholiadol newydd â phedwar aelod o'r enw Y Rhws a Sain Nicolas. Byddai'r ward hon yn cynnwys cymunedau Y Rhws, Llancarfan a Thresimwn a Sain Nicolas.

Llandŵ a Saint-y-brid – Mae'n cynnig y dylid cyfuno wardiau presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid, ynghyd â chymuned Sain Dunwyd, i greu ward newydd â thri aelod. O ystyried y cysylltiadau lleol a amlygwyd, mae'n cynnig y dylid rhoi'r enw **Gorllewin y Fro** i'r ward newydd hon.

16. Anfonodd **Plaid Cymru Dinas Powys** neges e-bost ar **19 Hydref 2020** i wrthwynebu'r cynigion i ostwng nifer y Cynghorwyr yn Ninas Powys o bedwar aelod i dri. Crybwyllodd y byddai'n well ganddi gadw'r trefniadau presennol. Cynigiodd opsiwn arall hefyd a fyddai'n cyfuno cymunedau Llanfihangel-ynys-afan a Llandoche, a fyddai'n mynd i'r afael â'r dangynrychiolaeth yn Ninas Powys.
17. Cynhwyswyd cynrychiolaeth gan **Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg** yng nghynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, a dderbyniwyd ar **08 Hydref 2020**. Crybwyllodd yr hoffai gadw'r trefniadau presennol ar gyfer Dinas Powys.
18. Anfonodd **Grŵp Ceidwadwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg** neges e-bost ar **12 Hydref 2020** yn amlinellu ei safbwyntiau ar yr Adroddiad Cynigion Drafft. Cyflwynodd y sylwadau canlynol:
 - Dylai'r Comisiwn gadw'r trefniadau presennol ar gyfer wardiau etholiadol Llandoche a Cornerswell.
 - Dylai'r Comisiwn gadw'r trefniadau presennol ar gyfer ward etholiadol Dinas Powys.
 - Dylid creu ward â phedwar aelod yn cynnwys cymunedau Y Rhws, Llancarfan, Sain Nicolas a Thresimwn.
 - Dylid cyfuno wardiau presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid, ynghyd â Chymuned Sain Dunwyd, i greu ward newydd â thri aelod o'r enw Gorllewin y Fro.
19. Anfonodd **Grŵp Plaid Cymru Bro Morgannwg** neges e-bost ar **20 Hydref** i roi'r sylwadau canlynol ar yr Adroddiad Cynigion Drafft:

Dinas Powys – Dylai'r ward hon gadw pedwar aelod; fodd bynnag, os yw'r Comisiwn o'r farn y byddai ward â thri aelod yn fwy priodol, gellid cyfuno wardiau cymunedol mwy gwledig Llanfihangel-ynys-Afan a Leckwith â Llandoche i ffurfio ward etholiadol.

Y Barri – Nid yw'n cefnogi'r cynigion ar gyfer ward â phedwar aelod yng Nghadoc. Mae'n argymhell y dylai'r Comisiwn ystyried rhannu'r ward bresennol yn ward Tregatwg (enw Saesneg: Cadoxton), gan ddefnyddio dosbarthiadau pleidleisio HA0, HB0 a HD0, a ward Pencoedtre gan ddefnyddio dosbarthiadau pleidleisio presennol HC0, HC1 a HD1. Mae'n cefnogi cynnydd yn nifer y cynrychiolwyr ar gyfer ward Baruc yn unol â'r twf yn y boblogaeth.

Gorllewin y Fro – Ar sail ffigurau rhagamcanol 2024, dylai wardiau presennol Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid fod ag un aelod yr un, a dylai ward etholiadol Llanilltud Fawr gadw ei threfniadau presennol a chadw pedwar aelod.

Canol y Fro – Mae'n cefnogi'r cynigion drafft yn ymwneud â'r Rhws.

